



Mick Antoni AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad

11 Medi 2020

Annwyl Mick,

**Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar Femorandwm  
Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru i'r Bil Masnach**

Diolch am ddarparu copi o adroddiad ac argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad ar y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol i'r Bil Masnach.

Mae ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yr adroddiad i'w weld yn Atodiad A.

Hoffwn ddiolch i'r Pwyllgor am graffu ar femorandwm y Bil Masnach. Rwyf yn rhannu eich pryderon ynglŷn ag effaith cytundebau masnach newydd ar Gymru. Fodd bynnag, fel y gwyddoch, dim ond i gytundebau masnach presennol sy'n parhau y mae cwmpas y Bil hwn yn berthnasol, yn hytrach na chytundebau masnach newydd.

Rwyf yn cydnabod eich pryderon ynglŷn â sicrhau consesiynau ar wyneb y Bil hwn, ond byddwn yn pwysleisio y byddai gwneud hynny yng nghyd-destun Llywodraeth y DU sydd â mwyafrif helaeth yn Nhŷ'r Cyffredin yn heriol iawn. Hoffwn nodi hefyd fod ymdrechion blaenorol i ddiwygio'r Bil yn sesiwn ddiwethaf Senedd y DU wedi arwain at wneud cytundebau rhynglywodraethol â Llywodraeth y DU ar y prif feysydd pryder. Cafodd y sefyllfa hon ei derbyn gan Senedd Cymru ar adeg pan oedd gan y Llywodraeth bryd hynny fwy o reswm dros gyfaddawdu.

Dyna pam fy mod wedi mabwysiadu dull o weithio gyda Gweinidogion y DU i sicrhau consesiynau drwy gytundebau rhynglywodraethol, techneg a ddefnyddir yn aml gan Weinidogion ym mhob un o'r gweinyddiaethau datganoledig i ddal Llywodraeth y DU i gyfrif.

Fel y gwyddoch, mae'r Bil wedi pasio drwy Dŷ'r Cyffredin. Cynhaliwyd y darlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 21 Gorffennaf, a chynhelir yr ail darlleniad ar 8 Medi. Nod Llywodraeth y DU yw sicrhau Cydsyniad Brenhinol i'r Bil erbyn diwedd y cyfnod pontio.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1NA

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y camau nesaf yn Nhŷ'r Arglwyddi yn gyfle arall i ddadlau ac, o bosibl, i sicrhau gwelliannau deddfwriaethol. O ystyried hyn, ac er mwyn mynd i'r afael yn rhannol â nifer o'ch argymhellion, byddaf yn:

- Ysgrifennu at Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi yn gwneud cais i gyflwyno gwelliant i gymal 2 a fyddai'n atal Gweinidogion y DU rhag arfer y pwerau gwneud rheoliadau i wneud gwelliannau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
- Ysgrifennu at y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach yn gofyn i Weinidogion y DU ailddatgan ymrwymiad yn y blwch dogfennau yn Nhŷ'r Arglwyddi y bydd Llywodraeth y DU yn ymgysylltu â'r gweinyddiaethau datganoledig cyn unrhyw benderfyniad ynghylch defnyddio pwerau cymal 2(7) i ymestyn y ddarpariaeth fachlud.

Gallaf eich sicrhau mai diogelu buddiannau Cymru mewn materion rhyngwladol yw un o fy mhrif flaenoriaethau. Byddaf yn parhau i gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar yr holl faterion polisi masnach drwy'r Fforwm Gweinidogol ar gyfer Masnach, lle gallaf ddylanwadu ar y trafodaethau a rhoi llais i Gymru.

Yn gywir,



**Eluned Morgan AS/MS**

Gweinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol  
Minister for International Relations and the Welsh Language

## Atodiad A

### Ymatebion Llywodraeth Cymru i Argymhellion y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad mewn perthynas â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol i Fil Masnach y DU

Argymhelliad	Ymateb Llywodraeth Cymru
<p data-bbox="204 436 432 472"><b>Argymhelliad 1</b></p> <p data-bbox="204 504 531 795">Dylai'r Gweinidog gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU yn gofyn am adolygiad o'r weithdrefn a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau a wneir o dan gymal 1.</p>	<p data-bbox="566 436 938 472"><b>Penderfyniad – Gwrthod</b></p> <p data-bbox="566 504 1476 683">Yn y gorffennol, nid yw Llywodraeth Cymru wedi codi gwrthwynebiad i'r ffaith fod rheoliadau a wneir o dan gymal 1 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol, a dyna oedd ei sail dros argymhell bod y Senedd yn rhoi cydsyniad deddfwriaethol i Fil Masnach 2017-19.</p> <p data-bbox="566 728 1476 1153">Wrth gyrraedd y safbwynt hwn mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried y ffaith y byddai'r pŵer hwn yn cael ei arfer i wneud newidiadau technegol yn bennaf i ddeddfwriaeth ddomestig sy'n bodoli eisoes, er mwyn rhoi'r Cytundeb ar Gaffael gan Lywodraethau (GPA) ar waith pan fydd y DU yn aelod annibynnol. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys gwelliannau i Reoliadau Contractau Caffael 2015 i sicrhau bod y rhestr o awdurdodau contractio llywodraeth ganolog y mae'r rheoliadau hynny'n berthnasol iddynt yn gyson â rhwymedigaethau'r DU o dan y GPA. Gallai hefyd gynnwys gwelliannau i ddeddfwriaeth ddomestig mewn ymateb i barti arall yn ymuno â'r GPA, neu aelod presennol yn gadael y GPA.</p> <p data-bbox="566 1198 1436 1422">Oherwydd bod hyd a lled y disgrisiwn y gall Gweinidogion Cymru neu Weinidogion y DU ei arfer yn gyfyngedig iawn yn ymarferol, a gan dderbyn bod Senedd y DU eisoes wedi cael cyfle i graffu ar aelodaeth y DU o'r GPA, cyrhaeddodd Llywodraeth Cymru safbwynt lle roedd yn fodlon bod y ddarpariaeth yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol.</p> <p data-bbox="566 1467 1476 1668">Derbyniodd Senedd Cymru y safbwynt hwn wrth gytuno ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol ar 12 Mawrth 2019, ac wedyn ar 21 Mai 2019 yn sgil dau gynnig cydsyniad deddfwriaethol atodol. Derbyniwyd mai siawns isel iawn yr oedd o sicrhau gwelliant gan Lywodraeth y DU i newid y weithdrefn arfaethedig o negyddol i gadarnhaol ar yr adeg honno.</p> <p data-bbox="566 1713 1484 1937">Mae Llywodraeth bresennol y DU mewn safle cryfach ar ôl ennill mwyafrif helaeth yn y Senedd, ac mae wedi ei gwneud yn glir nad oes bwriad ganddi i newid y weithdrefn a ddefnyddir ar gyfer rheoliadau a wneir o dan gymal 1. Felly, mae'n eithriadol o annhebygol y byddai unrhyw sylwadau y byddem yn eu cyflwyno i Lywodraeth y DU ar y mater hwn yn cael eu hystyried o ddifrif.</p> <p data-bbox="566 1982 997 2018"><b>Goblygiadau ariannol – Dim.</b></p>

<p><b>Argymhelliad 2</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog ysgrifennu at y Pwyllgor i roi gwybod i ni am ganlyniad y sylwadau a gyflwynir i Lywodraeth y DU yn sgil Argymhelliad 1.</p>	<p><b>Penderfyniad – Gwrthod</b></p> <p>O ganlyniad i'r rhesymau a nodwyd yn Argymhelliad 1, nid ystyrir ei bod yn briodol i'r Gweinidog gyflwyno sylwadau i Lywodraeth y DU ar y mater hwn.</p> <p><b>Goblygiadau ariannol – Dim.</b></p>
<p><b>Argymhelliad 3</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 1 gael ei arfer pan fydd Gweinidogion yn ei ystyried yn 'angenrheidiol', yn hytrach nag yn 'briodol'.</p>	<p><b>Penderfyniad – Derbyn mewn Egwyddor</b></p> <p>Rydym yn cytuno â'r Pwyllgor bod y dewis rhwng 'angenrheidiol' neu 'briodol' yn bwysig, a bod yn rhaid ei ystyried yn ofalus mewn perthynas â phob Bil penodol a'i amgylchiadau. Yn y sefyllfa benodol hon, rydym yn ymwybodol o derfyn amser y ddeddfwriaeth hon, hynny yw bod y Bil dim ond yn berthnasol i weithredu cytundebau rhyngwladol a oedd eisoes yn eu lle cyn i'r DU adael yr UE, a bod hyd a lled y pwerau eisoes yn gyfyngedig iawn yn ymarferol.</p> <p>Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno y byddai'r term 'angenrheidiol' yn fwy dymunol yn y cyd-destun lle na ddylid gwneud newidiadau oni bai eu bod yn angenrheidiol ar gyfer sicrhau cydymffurfedd llawn â rhwymedigaethau rhyngwladol. Fodd bynnag, oherwydd y byddai unrhyw welliant i'r Bil yn golygu bod yn rhaid defnyddio'r un safon ar gyfer y pwerau gwneud rheoliadau a roddir i Weinidogion y DU, mae'n dra annhebygol y byddai gwelliant o'r fath yn cael ei dderbyn – ac, eto, wrth ystyried Bil Masnach 2017-19, nid oedd Senedd Cymru wedi ystyried hwn yn fater a ddylai ei hatal rhag rhoi cydsyniad deddfwriaethol.</p> <p>Felly, nid ydym yn credu y byddai'n briodol i ni fynd ati i geisio gwelliant a fyddai'n cyfyngu ar y pwerau hyn, er na fyddem yn gwrthwynebu ymdrechion yn Nhŷ'r Arglwyddi i gyflwyno gwelliant o'r fath.</p> <p><b>Goblygiadau ariannol – Dim.</b></p>
<p><b>Argymhelliad 4</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i gymal 2(6)(a) y Bil i sicrhau na ellir ei ddefnyddio gan Weinidogion y DU i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006.</p>	<p><b>Penderfyniad – Derbyn</b></p> <p>Er ei bod yn dechnegol bosibl y gallai Llywodraeth y DU ddefnyddio cymal 2(6)(a) i wneud rheoliadau sy'n diwygio Deddf Llywodraeth Cymru 2006, yn ymarferol, mae'n eithriadol o annhebygol y byddai hyn yn digwydd oherwydd mae pwerau cymal 2 yn gyfyngedig iawn o ran eu hyd a'u lled.</p> <p>I liniaru'r risg fod Gweinidogion y DU yn defnyddio cymal 2 yn y modd hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio i sicrhau ymrwymadau gan Lywodraeth y DU, er eu bod yn rhai rhynglywodraethol ac anneddfwriaethol nad ydynt yn rhwymo, na fydd pwerau cymal 2 yn cael eu defnyddio ym meysydd lle y</p>

	<p>mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli. O ganlyniad i hynny, ar 23 Mehefin 2020, yng nghyfarfod Pwyllgor y Bil Masnach yn Nhŷ'r Cyffredin, roedd y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach wedi ailddatgan addewidion a wnaed gan ragflaenwyr yn ystod hynnt Bil Masnach 2017-19 na fyddai Llywodraeth y DU yn deddfu mewn meysydd datganoledig fel rheol heb gydsyniad y gweinyddiaethau datganoledig perthnasol, a byth heb ymgynghoriad yn gyntaf. Yn ogystal â hynny, ac yn dilyn sylwadau gan y Gweinidog Cysylltiadau Rhyngwladol, gwnaeth y Gweinidog dros Bolisi Masnach ymrwymiad newydd y bydd ei adran yn gweithio'n agos gyda'r gweinyddiaethau datganoledig ym mhob cam o'r trafodaethau masnach.</p> <p>Fodd bynnag, er bod Llywodraeth y DU wedi nodi o'r blaen nad yw'n bwriadu arfer y pwerau cymal 2 i wneud gwelliannau i Ddeddf Llywodraeth Cymru ac wedi gwneud sylwadau yn y blwch dogfennau na fydd yn gwneud hynny fel rheol, ac nad ydym yn rhag-weld sefyllfa lle byddai angen gwneud hynny erioed, rydym yn cydnabod bod risg fach y gallai Gweinidogion y DU arfer y pwerau hyn. Rydym yn cytuno â Senedd Cymru nad yw'n dderbyniol i Weinidogion y DU ddefnyddio pwerau eilaidd i ddiwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol graidd sy'n sail i'r setliad datganoli.</p> <p>Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Lefarydd Tŷ'r Arglwyddi yn gwneud cais i gyflwyno gwelliant i gymal 2 a fyddai'n atal Gweinidogion y DU rhag arfer y pwerau gwneud rheoliadau i wneud gwelliannau i Ddeddf Llywodraeth Cymru.</p> <p><b>Goblygiadau ariannol – Dim.</b></p>
<p><b>Argymhelliad 5</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil er mwyn ei gwneud yn bosibl i'r pŵer gwneud rheoliadau yng nghymal 2 gael ei arfer pan fydd Gweinidogion yn ei ystyried yn 'angenrheidiol', yn hytrach nag yn 'briodol'.</p>	<p><b>Penderfyniad – Derbyn mewn Egwyddor</b></p> <p>Gweler yr ymateb a ddarparwyd i Argymhelliad 3, sy'n mynd i'r afael ag Argymhelliad 5 hefyd.</p> <p><b>Goblygiadau ariannol – Dim</b></p>
<p><b>Argymhelliad 6</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil i sicrhau bod gofyniad ar Lywodraeth y DU i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau</p>	<p><b>Penderfyniad – Gwrthod</b></p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno gwelliannau i Fil 2017-19, ynghyd â Llywodraeth yr Alban, a fyddai wedi gorfodi Gweinidogion y DU i gael cydsyniad Gweinidogion Cymru a'r Alban cyn gwneud rheoliadau o dan gymalau 1 a 2 a fyddai'n gwneud darpariaethau mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli.</p>

<p>o dan gymalau 1(1) a 2(1).</p>	<p>Cafodd y gwelliannau hyn eu gwrthod ond cafwyd consesiynau gan Lywodraeth y DU, ar ffurf ymrwymïadau anneddfwriaethol yn y blwch dogfennau, na fyddai fel rheol yn deddfu mewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli heb ymgynghoriad. Mae'r ymrwymïadau hyn wedi cael eu hailddatgan gan y Gweinidog dros Bolisi Masnach mewn perthynas â Bil 2019-21, fel yr amlinellir yn yr ymateb i Argymhelliad 4.</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru wedi cyrraedd safbwynt ar y Bil blaenorol lle roedd yn derbyn y byddai gofyniad ar Lywodraeth y DU i gael cydsyniad ar wyneb y Bil yn golygu y byddai gan y gweinyddiaethau datganoledig fetó, i bob pwrpas, ar gytundebau rhyngwladol a drafodir gan Lywodraeth y DU. Penderfynodd Llywodraeth Cymru fod sicrhau ymrwymïadau anneddfwriaethol yn y blwch dogfennau, yn hytrach na phwysu am fetó, yn gyson â'i hamcanion a nodir yn ei dogfen polisi masnach gyhoeddedig, 'Y Polisi Masnach: Materion Cymru'. Yn ogystal â hynny, derbyniwyd mai'r cyfaddawd hwn oedd yr unig ffordd o symud y Bil Masnach yn ei flaen er mwyn sicrhau parhad i fusnesau a dinasyddion Cymru ar ddiwedd y cyfnod pontio. Yn flaenorol, roedd y Senedd yn fodlon rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar y sail hon.</p> <p>Mae'r Pwyllgor yn nodi yn yr adroddiad bod Biliau eraill y DU, fel Bil yr Amgylchedd, yn cynnwys pwerau cydredol plws, sy'n golygu bod yn rhaid cael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn i Weinidogion y DU wneud rheoliadau mewn meysydd datganoledig. Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn bod Bil yr Amgylchedd a'r Bil Pysgodfeydd yn cynnwys pwerau cydredol plws, ond yn yr achosion hyn mae pwnc craidd y Biliau'n amlwg yn un datganoledig. Mae'r Bil Masnach yn wahanol i'r ddau Fil hynny oherwydd dim ond rhannau cyfyngedig ohono sy'n gwneud darpariaethau mewn meysydd datganoledig. Mae Biliau eraill y DU sy'n ymwneud â chytundebau rhyngwladol y mae angen amdanynt o ganlyniad i ymadawiad y DU o'r UE, fel Deddf Gofal Iechyd (Trefniadau'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a Swistir) 2019, wedi pasio drwy Senedd y DU lle mae ymrwymïadau yn y blwch dogfennau yn cael eu derbyn fel dyfais ddilys, ond nid delfrydol, y gall Llywodraethu datganoledig ei defnyddio i ddal Llywodraeth y DU i gyfrif.</p> <p><b>Goblygiadau ariannol – Dim.</b></p>
<p><b>Argymhelliad 7.</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio gwelliant i'r Bil i sicrhau bod gofyniad ar Lywodraeth y DU i gael cydsyniad Senedd Cymru cyn gwneud rheoliadau o dan gymal 2(7).</p>	<p><b>Penderfyniad – Gwrthod</b></p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi cyrraedd safbwynt lle roedd yn fodlon argymhell rhoi cydsyniad deddfwriaethol i gymal 2(7) ar sail ymrwymïadau anneddfwriaethol a wnaed gan Lywodraeth y DU yn ystod hynt Bil Masnach 2017-19, a oedd yn cynnwys ymrwymïad yn y blwch dogfennau i ymgysylltu â gweinyddiaethau datganoledig cyn ymestyn y cyfnod y gellir defnyddio pwerau cymal 2 o dan y</p>

	<p>Bil ynddo. Derbyniodd Senedd Cymru y safbwynt hwn, a rhoi cydsyniad deddfwriaethol ar y sail hon.</p> <p>Fel yr amlinellir yn yr ymateb i Argymhelliad 6, mae ymrwymïadau yn y blwch dogfennau yn cael eu derbyn fel dyfais ddilys, ond nid delfrydol, y gall Llywodraethu datganoledig ei defnyddio i ddal Llywodraeth y DU i gyfrif mewn perthynas â Biliau'r DU. Felly, yn yr achos hwn, byddai dibynnu ar ymrwymïad yn y blwch dogfennau yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer deddfwriaeth arall.</p> <p>Serch hynny, nodwyd bod yr ymrwymïad hwn wedi'i wneud ar 17 Gorffennaf 2018 ac nad yw wedi'i ailddatgan yn benodol gan y Gweinidog Gwladol dros Bolisi Masnach mewn perthynas ag ymestyn y cyfnod machlud. Felly, bydd Llywodraeth Cymru yn ysgrifennu at Lywodraeth y DU gan ofyn a fyddai Gweinidogion yn ailddatgan yr ymrwymïad hwn yn benodol yn y blwch dogfennau yn ystod camau Tŷ'r Arglwyddi.</p> <p><b>Goblygiadau ariannol – Dim.</b></p>
<p><b>Argymhelliad 8</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio trafodaethau brys â Llywodraeth y DU ynghylch yr ymrwymïadau a wnaed o ran gweithrediad yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, yn benodol o ran ymgynghori â Llywodraeth Cymru ar argymhellion yr Awdurdod, a cheisio newidiadau i'r ymrwymïadau y cytunwyd arnynt er mwyn iddynt adlewyrchu'n briodol statws Llywodraeth Cymru fel y Llywodraeth yng Nghymru, ac nid fel adran o Lywodraeth y DU.</p>	<p><b>Penderfyniad – Gwrthod</b></p> <p>Nid yw materion sy'n ymwneud â'r Awdurdod Rhwymedïau Masnach o fewn cymhwysedd y Senedd, er bod hwn yn faes lle mae gan fusnesau a dinasyddion Cymru fuddiant clir. Mae Llywodraeth Cymru wedi argymhell cefnogi'r mesurau arfaethedig ar gyfer sefydlu corff annibynnol newydd, yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, i ymchwilio anghydfodau masnach ar y sail fod Llywodraeth Cymru yn rhan o'r broses ymchwilio, ond y bydd Llywodraeth y DU yn gweithredu ar ran y DU yn ei chyfanrwydd.</p> <p>Mae'n bwysig nodi y bydd rhwymedigaeth gyfreithiol ar y DU i sefydlu awdurdod i reoli a chyflawni rhwymedïau masnach pan fydd y DU yn cydsynio â Sefydliad Masnach y Byd. Oherwydd nad yw Cymru'n aelod o Sefydliad Masnach y Byd ei hun, ar Lywodraeth y DU mae'r rhwymedigaeth gyfreithiol, nid Llywodraeth Cymru.</p> <p>Safbwynt Llywodraeth Cymru yw na fyddwn yn disgwyl cymryd rhan yng ngweithgareddau gweithredol yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, gan ei fod yn gorff annibynnol. Mae Llywodraeth Cymru yn credu bod gallu gweithredu fel cyfrannwr mewn unrhyw achos y mae'r Awdurdod yn ymchwilio iddo, ar yr un pryd ag adrannau eraill o Lywodraeth y DU, yn sicrhau bod ein safbwyntiau'n cael eu cyfrannu at y broses ar yr adeg fwyaf priodol, pan fo'r argymhellion yn cael eu hystyried a'u datblygu. Os ymgynghorir â ni ar yr argymhellion pan fyddant yn cael eu cyflwyno i'r Ysgrifennydd Gwladol, yn lle ein bod yn rhan o'r broses yng nghamau cynharaf yr ymchwiliad, byddai hyn yn achosi'r risg y gallai Llywodraeth y DU ffurfio barn sefydledig, gyfunol heb ein cyfraniad. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu mai siawns isel iawn fyddai gennym o ddylanwadu ar y</p>

	<p>canlyniad neu o aildechrau'r trafodaethau, pe baem yn dymuno gwneud hynny. Bydd cyfraniad yng nghramau cynharach y broses, ar adeg pan fydd gwahanol fuddiannau cydymgeisiol yn Llywodraeth y DU yn dod i'r amlwg ac yn cael eu datrys, yn fwy buddiol oherwydd bydd yn ein galluogi i gael rhagor o ddylanwad. Mae'r broses hon eisoes yn gweithio'n ymarferol oherwydd mae swyddogion wedi cael nifer o wahoddiadau i gyfrannu at ymchwiliadau gan Gyfarwyddiaeth yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach yn Llywodraeth y DU, sy'n rheoli'r ymchwiliadau yn ystod y cyfnod pontio.</p> <p>Roedd Llywodraeth Cymru yn y gorffennol wedi sicrhau ymrwymadau anneddfwriaethol gan Lywodraeth y DU, ar 4 Chwefror 2019, ynghylch y ffyrdd y byddwn yn gallu rhyngweithio â'r Awdurdod a chynnal lefel o gyfraniad yn y broses ymchwilio. Cafodd Datganiad Ysgrifenedig, yn darparu rhagor o fanylion am ymrwymadau Llywodraeth y DU, ei gyhoeddi ar 30 Ebrill 2019.</p> <p>Barn Llywodraeth Cymru yw bod yr ymrwymadau hyn, ynghyd â'r wybodaeth fanwl a ddarparwyd yn y Datganiad Ysgrifenedig am sut bydd Llywodraeth y DU yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn y gweithdrefnau, yn rhoi sicrwydd boddhaol y byddwn yn rhan o'r broses ymchwilio ar yr adeg fwyaf priodol, yn y ffordd fwyaf priodol. Y dystiolaeth hyd yma yw bod yr ymrwymadau'n cael eu gwireddu'n ymarferol.</p> <p><b>Goblygiadau ariannol – Dim</b></p>
<p><b>Argymhelliad 9</b></p> <p>Dylai'r Gweinidog geisio trafodaethau brys â Llywodraeth y DU ynghylch yr ymrwymadau a wnaed o ran gweithrediad yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach, yn benodol o ran dyletswydd ar yr Awdurdod i roi cyngor i Weinidogion Cymru, a cheisio newidiadau i'r ymrwymadau y cytunwyd arnynt er mwyn iddynt adlewyrchu'n briodol rôl Llywodraeth Cymru yn rhoi cytundebau masnach ryngwladol ar waith.</p>	<p><b>Penderfyniad – Gwrthod</b></p> <p>Gweler yr ymateb a ddarparwyd i Argymhelliad 8, sy'n mynd i'r afael ag Argymhelliad 9 hefyd.</p> <p><b>Goblygiadau ariannol – Dim</b></p>